# City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu (7574-20)

C00/4688/1

Fersiwn 1.0 Rhagfyr 2022

## Llawlyfr Cymwysterau

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | TG/Digidol |
| **Rhif City & Guilds** | 7574 |
| **Grŵp oedran wedi'i gymeradwyo** | 16+ |
| **Gofynion mynediad** | Dim |
| **Asesu** | Portffolio o dystiolaeth |
| **Graddio** | Llwyddo/Methu |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyaeth lawn ar ganolfannau newydd<br>Cymeradwyaeth awtomatig i ganolfannau'n cyflwyno 7574-02 |
| **Deunyddiau cefnogi** | Cynorthwyydd Dysgu, Ffurflenni Cofnodi Uned |
| **Cofrestru ac ardystio** | Gweler y Walled Garden /Catalog Ar-lein ar gyfer y dyddiadau olaf |

| Teitl a lefel | Rhif cymhwyster City & Guilds | Rhif cyfeirio rheoleiddiol | ODDA | CAC | Credyd |
|---|---|---|---|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu | 7574-20 | C00/4688/1 | 30 | 40 | 4 |

| Fersiwn a dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.0 Rhagfyr 2022 | Fersiwn cyntaf | Pob un |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar y cymhwyster | 2 |
| Cynnwys | 4 |
| 1 Cyflwyniad | 5 |
| Strwythur | 7 |
| Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) | 8 |
| 2 Gofynion y ganolfan | 9 |
| Cymeradwyaeth | 9 |
| Gofynion adnoddau | 10 |
| Sicrhau Ansawdd | 11 |
| Gofynion mynediad dysgwr | 12 |
| Cyfyngiadau oedran | 12 |
| Mynediad at asesiad ac ystyriaeth arbennig | 12 |
| 3 Cyflwyno'r cymhwyster | 13 |
| Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu | 13 |
| Deunyddiau cefnogi | 13 |
| 4 Asesu | 14 |
| Asesu'r cymhwyster | 14 |
| Strategaeth asesu | 14 |
| Cyfyngiadau amser | 16 |
| Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) | 16 |
| 5 Unedau | 17 |
| Strwythur yr unedau | 17 |
| Arweiniad ar gyfer cyflwyno'r unedau | 17 |
| Uned 200 Gwella cynhyrchedd gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol | 18 |
| Atodiad 1 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol | 22 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i gyflwyno'r cymhwyster:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu wedi'i gynllunio'n benodol i'w ddefnyddio yn Fframweithiau Adeiladu Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) ac mae'n berthnasol i amrywiaeth o rolau yn y sector adeiladu. Mae'r cymhwyster wedi'i gymeradwyo fel un sy'n bodloni gofynion CITB Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gynnwys yn Fframwaith Prentisiaethau Cymru ar gyfer Adeiladu. Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer prentisiaid yn unig. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu? | Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys un uned orfodol sy'n cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio'n hyderus ac yn effeithiol gyda thechnoleg ddigidol a chwblhau tasgau syml neu arferol ac weithiau tasgau nad ydynt yn arferol neu'n sy'n anghyfarwydd. |
| Pa gyfleoedd sydd ar gyfer dilyniant? | Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i ddysgu, datblygu ac arddangos y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen mewn technoleg ddigidol ar gyfer cyflogaeth/neu ddilyniant gyrfa yn y diwydiant adeiladu.<br><br>Gall dysgwyr symud ymlaen i:<br>City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma ar gyfer defnyddwyr TG (7574-02)<br>• Lefel 2 (Dyfarniad): 500/6706/0<br>• Lefel 2 (Tystysgrif): 500/6724/2<br>• Lefel 2 (Diploma): 500/6760/6<br>• Lefel 2 (Diploma) Prentisiaethau Sgiliau Defnyddwyr TG: 600/0993/7 |

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster(cymwysterau)? | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan CITB Cymru a Llywodraeth Cymru i'w gynnwys yn Fframwaith Prentisiaethau Cymru ar gyfer Adeiladu. |
| Ydy e'n rhan o fframwaith neu gynllun prentisiaeth? | Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei ddefnyddio yn Fframwaith Prentisiaethau Cymru ar gyfer Adeiladu. Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer prentisiaid yn unig. |

## Strwythur

Er mwyn cyflawni Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu rhaid i ddysgwyr gyflawni:

| Rhif uned City & Guilds | Teitl yr uned | Gwerth credyd | ODDA |
|---|---|---|---|
| **Gorfodol** | | | |
| Rhaid i ddysgwyr gyflawni **un** uned orfodol. | | | |
| 7574-200 | 7574-200 Gwella cynhyrchedd gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol | 4 | 30 |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC)

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) yw nifer yr oriau amcanol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid disgwyl yn rhesymol i ddysgwr ddangos cyflawniad o lefel cyrhaeddiad angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cymhwyster.

Mae CAC yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

1) Nifer yr oriau y mae sefydliad dyfarnu wedi eu neilltuo i gymhwyster Dysgu dan Arweiniad, ac
2) Amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwyr yn debygol yn rhesymol o'u treulio wrth baratoi, astudio neu unrhyw ffurf arall o gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys asesu, sy'n digwydd fel y cyfarwyddir - ond yn wahanol i Ddysgu o dan Arweiniad, nid o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol - gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysgu neu hyfforddiant priodol, arall.

| Teitl a lefel | ODDA | CAC |
|---|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu) | 30 | 40 |

# 2 Gofynion y ganolfan

## Cymeradwyaeth

### Cymeradwyaeth lawn

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau newydd gael cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster. Cyfeiriwch at y ddogfen **Safonau Sicrhau Ansawdd: Proses Cymeradwyo Canolfan** am wybodaeth bellach.

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

### Cymeradwyaeth awtomatig

Os cafodd eich canolfan ei chymeradwyo i gynnig **Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 2 City & Guilds** i **Ddefnyddwyr TG (7574-02)** byddwch yn cael eich cymeradwyo'n awtomatig i gynnig y cymhwyster **Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds newydd mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu (7574-20).**

Cyfeiriwch at y ddogfen **Safonau Sicrhau Ansawdd: Proses Cymeradwyo Canolfan** am wybodaeth bellach.

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

## Gofynion adnoddau

### Adnoddau

Bydd llawer o'r asesu ar gyfer y cymhwyster hwn yn digwydd yn y gweithle o dan amodau gwaith real.

### Staffio canolfannau

Rhaid i staff/aseswyr sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylent:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y maes/meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar ei gyfer a/neu fod â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod i'r un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- fod â phrofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- feddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Er mwyn sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu, disgwylir y bydd gan ganolfannau ddulliau ar waith i:

- sicrhau bod gan aseswyr a dilyswyr mewnol y sgiliau TG a'r profiad angenrheidiol i asesu'r unedau a'r cymwysterau y maent yn llunio barn arnynt, fel y dangosir drwy feddu ar ITQ ar lefel 3 neu gyfwerth

- cynnal cofrestr gyfredol o curriculum vitae (CVs), gan gynnwys cyfeiriad at ddatblygiad proffesiynol parhaus

- cael mynediad at hyfforddiant ac ardystio aseswyr a dilyswyr mewnol i feddu ar gymwysterau aseswr y gallai fod eu hangen ar City & Guilds neu gorff rheoleiddio pe bai angen

- Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol.

Dylent:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y maes/meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar ei gyfer a/neu fod â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod i'r un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- fod â phrofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- feddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Er bod y cymwysterau Aseswr/Gwiriwr (A/G) yn cael eu gwerthfawrogi fel ar gyfer staff y ganolfan, nid oes angen i aseswyr feddu ar y cymhwyster A1, nac i ddilyswyr feddu ar y cymhwyster G1, nac yn wir i fod yn gweithio tuag at y cymwysterau hyn.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e., tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni allant sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

### Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Disgwylir i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol o ran y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi,

asesu a sicrhau ansawdd, a'i bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Sicrhau Ansawdd

Rhaid i ganolfannau cymeradwy gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth a'r asesiad gorau posibl o gymwysterau. Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyaeth gychwynnol i ganolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol, ac mae City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol. Am ragor o fanylion am hyn ewch i ddogfennau Safonau Sicrhau Ansawdd ar wefan City & Guilds.

Caiff safonau a sicrhau ansawdd cadarn eu cynnal trwy ddefnyddio:

- sicrhau ansawdd mewnol
- sicrhau ansawdd allanol City & Guilds

Er mwyn cynnal y rôl sicrhau ansawdd, rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

- feddu ar arbenigedd dysgu priodol a gwybodaeth alwedigaethol
- feddu ar brofiad mewn rheoli ansawdd/sicrhau ansawdd mewnol
- feddu ar gymhwyster dysgu/hyfforddi/asesu priodol neu weithio tuag at hyn
- fod yn gyfarwydd â'r cynnwys galwedigaethol a thechnegol a gwmpesir o fewn y cymhwyster.

Caiff sicrhad ansawdd allanol ar gyfer y cymhwyster ei ddarparu gan broses SAA City & Guilds Penodir Sicrhawyr Ansawdd Allanol gan City & Guilds i gymeradwyo canolfannau, ac i fonitro'r asesiad a'r sicrhau ansawdd mewnol a gynhelir gan ganolfannau. Caiff sicrhau ansawdd allanol ei gynnal i sicrhau bod yr asesiad yn ddilys ac yn ddibynadwy, a bod ymarfer asesu da mewn canolfannau.

Rôl y SAA yw:

- rhoi cyngor a chefnogaeth i staff canolfannau
- sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau o fewn a rhwng canolfannau drwy ddefnyddio samplu systematig
- rhoi adborth i ganolfannau ac i City & Guilds.

## Gofynion mynediad dysgwr

Nid yw City & Guilds yn gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw cysylltu â'r cyflogwr i sicrhau bod y dysgwr wedi bodloni unrhyw ofynion megis datgeliad manylach a gwiriadau gwahardd cyn cychwyn ar y cymhwyster. Dylai'r ganolfan gofnodi hyn fel rhan o'r asesiad cychwynnol.

Os yw dysgwyr yn dilyn safon prentisiaeth, rhaid iddynt gael gwiriad gwasanaeth datgelu a gwahardd manylach cyn dechrau ar y brentisiaeth.

## Cyfyngiadau oedran

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr 16 oed neu hŷn.

## Mynediad at asesiad ac ystyriaeth arbennig

I gael gwybodaeth am sut i wneud cais am drefniadau mynediad, cyfeiriwch at ***Sut a phryd i wneud cais am drefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig (cityandguilds.com)***

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau eu rhaglen i nodi:
- os oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymhwyster
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y maent wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster yn llawn, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn.

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| 7574-20 Ffurflenni Cofnodi Uned | www.cityandguilds.com |
| Cynorthwyydd Dysgu | www.cityandguilds.com |

# 4 Asesu

## Asesu'r cymhwyster

Rhaid i ymgeiswyr:

- meddu ar bortffolio tystiolaeth wedi'i gwblhau sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu ar gyfer yr uned orfodol 7574-200 Gwella cynhyrchiant gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol

## Strategaeth asesu

Mae Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu yn cael ei asesu gan Bortffolio Tystiolaeth. Rhaid cynhyrchu'r holl dystiolaeth naill ai yn y gweithle/amgylcheddau dysgu rhithwir neu drwy brosiectau a osodir gan y ganolfan/darparwr hyfforddiant neu gyflogwr sy'n atgynhyrchu tasgau amgylchedd gwaith realistig.

Caiff yr ymgeisydd ei fesur yn erbyn y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu fel y'u disgrifir yn uned y cymhwyster hwn. Rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r holl ddeilliannau dysgu i ennill y cymhwyster.

Gellir cwblhau’r portffolio o dystiolaeth sydd ei angen i ddangos gwybodaeth a sgiliau sylfaenol ar gyfer y cymhwyster hwn fel rhan o brentisiaeth adeiladu prentisiaid.

Rhaid i ganolfannau/darparwyr hyfforddiant/cyflogwyr gynnal asesiad cychwynnol cadarn i sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael y cyfle i ddarparu tystiolaeth yn erbyn holl ofynion y cymhwyster.

### Cofnodi Tystiolaeth

Mae City & Guilds wedi datblygu set o Ffurflenni Cofnodi y gellir eu defnyddio i gofnodi canlyniadau ymgeiswyr ar gyfer y portffolio o dystiolaeth. Mae'r ffurflenni wedi'u lleoli yn nogfen **Ffurflenni Cofnodi Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu (7574-20)** sydd ar wefan City & Guilds.

Gall ymgeiswyr a chanolfannau/darparwyr hyfforddiant/cyflogwyr benderfynu defnyddio dull electronig o gofnodi tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Mae City & Guilds yn cymeradwyo sawl system ePortffolio, gan gynnwys ein **Cynorthwy-ydd Dysgu** ein hunain, offeryn ar-lein hawdd ei ddefnyddio a diogel i gefnogi a dangos tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **www.cityandguilds.com/eportfolios**.

Rhaid i’r dystiolaeth bob amser adlewyrchu polisïau a gweithdrefnau’r gweithle yn unol â’r ddeddfwriaeth gyfredol, y safonau gwasanaeth perthnasol ac unrhyw godau ymarfer ar gyfer y sector.

Rhaid peidio â chynnwys cofnodion cyfrinachol ym mhortffolios ymgeiswyr ond rhaid cyfeirio atynt yn y cofnodion asesu. Ni ddylid defnyddio recordiad fideo neu sain os yw hyn yn peryglu preifatrwydd, urddas neu gyfrinachedd unrhyw unigolyn neu grŵp

**Tyst Arbenigol**

Gall rôl yr asesydd fod yn rhan o rôl ehangach o fewn adran hyfforddi sefydliad. Lle nad yw'r asesydd yn alwedigaethol alluog mewn maes arbenigol, gellir defnyddio tystion arbenigol ar gyfer arsylwi uniongyrchol. Dylai'r asesydd benderfynu a chytuno ar y defnydd o dystion arbenigol.

Rhaid i dyst arbenigol:

- feddu ar wybodaeth ymarferol o'r unedau y maent yn rhoi tystiolaeth arbennig ar eu cyfer
- fod yn gymwys yn alwedigaethol yn y maes y maent yn darparu tystiolaeth arbenigol ar ei gyfer
- feddu NAILL AI unrhyw gymhwyster mewn asesu perfformiad yn y gweithle NEU rôl waith sy'n cynnwys gwerthuso arferion beunyddiol staff.

**Ffynonellau tystiolaeth**

Er mwyn helpu i adeiladu portffolio cyflawn, dylai aseswyr nodi cymysgedd priodol o ddulliau asesu o'r rhestr isod, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer yr uned a gynhwysir yn y cymhwyster hwn.

Gall ffynonellau tystiolaeth gynnwys:

- Gall **tystion arbenigol** arsylwi ymarfer ymgeiswyr a darparu tystiolaeth ar gyfer gofynion cymhwysedd ar draws y cymhwyster. Os na all aseswr arsylwi ei ymgeisydd, bydd yn nodi tyst arbenigol yn y gweithle, a fydd yn rhoi tystiolaeth o berfformiad yr ymgeisydd yn y gwaith. I gynnwys arteffactau ategol.

- Gall **cynhyrchion gwaith/adroddiadau/cyflwyniadau ysgrifenedig** fod yn unrhyw gynhyrchion perthnasol o waith yr ymgeiswyr eu hunain, neu y maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol iddynt, sy'n dangos defnydd a chymhwysiad o fewn eu hymarfer gyda gofynion asesedig yr uned.

- Dylai **trafodaeth broffesiynol** fod ar ffurf adolygiad strwythuredig wedi'i gynllunio o ymarfer ymgeiswyr, yn seiliedig ar dystiolaeth a chyda'r canlyniadau wedi'u casglu trwy gyfrwng sain/gweledol (clipiau fideo wedi'u hadrodd / - mwyafswm o 10 munud o hyd / ffotograffau wedi'u hanodi) neu drwy gofnodion ysgrifenedig. Mae'r canlyniadau a gofnodwyd yn arbennig o ddefnyddiol fel tystiolaeth y gall ymgeiswyr werthuso eu gwybodaeth a'u hymarfer ar draws y cymhwyster.

- Mae **adroddiadau ymgeiswyr/myfyriol** yn disgrifio gweithredoedd ymgeiswyr mewn sefyllfaoedd penodol a/neu'n myfyrio ar y rhesymau dros ymarfer yn y ffyrdd a ddewiswyd. Mae adroddiadau myfyriol hefyd yn darparu tystiolaeth y gall ymgeiswyr werthuso eu gwybodaeth a'u hymarfer ar draws y gweithgareddau sydd wedi'u hymgorffori yn y cymhwyster hwn.

- **Cwestiynau a ofynnir gan aseswyr** ac a atebir gan ymgeiswyr i ategu tystiolaeth a gynhyrchwyd gan arsylwadau ac unrhyw fath arall o dystiolaeth a ddefnyddiwyd. Efallai y bydd aseswyr yn gallu casglu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o arsylwi ymarfer ymgeiswyr. Gallant ofyn cwestiynau i gadarnhau dealltwriaeth a/neu ymdrin ag unrhyw feysydd sy'n weddill. Gellir gofyn cwestiynau ar lafar neu'n ysgrifenedig ond, yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion.

- **Tystiolaeth tystion:** dylai'r rhain fod gan bobl sydd mewn sefyllfa i ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd ymgeiswyr.

- **Prosiectau/Aseiniadau:** efallai bod ymgeiswyr eisoes wedi cwblhau prosiect neu aseiniad perthnasol y gellir ei fapio i'r safonau perthnasol ac felly'n darparu tystiolaeth. Gellir defnyddio tystiolaeth o gyrsiau hyfforddi blaenorol a/neu raglenni dysgu y maent wedi'u cwblhau, ac sy'n dangos eu datblygiad proffesiynol hefyd.

- Rhaid i **astudiaethau achos** fod yn seiliedig ar ymarfer a phrofiadau gwaith go iawn a bydd angen iddynt gael eu dilysu gan aseswr os cânt eu defnyddio fel tystiolaeth o berfformiad cymwys. Dim ond fel tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth y byddai ymarferion damcaniaethol neu efelychiadol yn dderbyniol.

Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir fod yn ddilys ac yn briodoladwy i'r dysgwr; rhaid i'r Portffolio Tystiolaeth gynnwys datganiad gan y ganolfan/darparwr hyfforddiant/cyflogwr yn cadarnhau hyn.

**Ni ddylai** tystiolaeth gynnwys:
- unrhyw ddulliau o hunanasesu
- unrhyw gyfraniadau cyflogwr sy'n canolbwyntio ar farn yn hytrach nag arsylwi'n uniongyrchol ar dystiolaeth o gymhwysedd (er enghraifft datganiadau tyst).

## Cyfyngiadau amser

Mae cofrestriad cymhwyster yn ddilys am bum mlynedd

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Mae cydnabod dysgu blaenorol yn golygu defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol unigolyn sydd eisoes wedi'u cyflawni i gyfrannu at gymhwyster newydd.

.

# 5 Unedau

## Strwythur yr unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- Teitl
- Lefel
- Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)
- Gwerth credydau
- Nod yr uned
- Math asesiad
- Canlyniadau dysgu, sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- Gwybodaeth ategol
- Perthynas â SGC/Mapio i safonau galwedigaethol/prentisiaeth

## Arweiniad ar gyfer cyflwyno'r unedau

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys/yn cynnwys nifer o **unedau.** Mae uned yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan berson cymwys mewn agweddau penodol ar ei swydd.

Rhennir pob **uned** yn **ganlyniadau dysgu** sy'n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd feddu arnynt.

Mae gan bob **canlyniad dysgu** set o **feini prawf asesu** (perfformiad, a gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf dymunol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni.

Mae **gwybodaeth ategol** yn rhoi arweiniad ar y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr uned ac arweiniad penodol ar gyflwyno a datganiadau ystod. Cynghorir canolfannau i adolygu'r wybodaeth hon yn ofalus cyn cyflwyno'r uned.

# 7574-200 Gwella cynhyrchedd gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **Gwerth credyd:** | 4 |
| **ODDA:** | 30 |
| **Math asesiad:** | Portffolio o dystiolaeth |
| **Nod:** | Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwr i ddangos y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gynllunio, gwerthuso a gwella gweithdrefnau sy'n ymwneud â defnyddio systemau technoleg ddigidol i gynyddu cynhyrchedd ac effeithlonrwydd mewn amrywiaeth o rolau/lleoliadau.<br><br>Ar ôl cwblhau'r uned hon bydd y dysgwr yn gallu cynllunio ac adolygu ei ddefnydd o offer technoleg ddigidol rhagddiffiniedig neu a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer technoleg gweithgareddau a chwblhau tasgau syml neu arferol ac weithiau tasgau nad ydynt yn arferol neu'n anghyfarwydd. |

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD1 cynllunio, dewis a defnyddio techneg ddigidol a meddalwedd ar gyfer gwahanol ddibenion.

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA1.1 disgrifio diben defnyddio technoleg ddigidol
MPA1.2 disgrifio'r dulliau, sgiliau ac adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r dasg yn llwyddiannus
MPA1.3 cynllunio sut i gynnal tasgau gan ddefnyddio technoleg ddigidol i gyflawni'r pwrpas a'r canlyniad gofynnol
MPA1.4 disgrifio unrhyw ffactorau a all effeithio'r dasg
MPA1.5 dewis a defnyddio systemau technoleg ddigidol a chymwysiadau meddalwedd i gwblhau tasgau a gynlluniwyd ac i gynhyrchu canlyniadau effeithiol
MPA1.6 disgrifio sut mae'r pwrpas a'r canlyniadau wedi'u bodloni gan y systemau technoleg ddigidol a'r cymwysiadau meddalwedd a ddewiswyd
MPA1.7 disgrifio unrhyw ganllawiau neu gyfyngiadau cyfreithiol neu leol a all fod yn

berthnasol i weithgaredd y dasg

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD2 adolygu ac addasu'r defnydd parhaus o offer a systemau technoleg ddigidol i sicrhau bod gweithgareddau'n llwyddiannus

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA2.1 adolygu'r defnydd parhaus o offer technoleg ddigidol a newid y dull yn ôl yr angen
MPA2.2 disgrifio a oedd yr offer technoleg ddigidol a ddewiswyd yn briodol i'r dasg ac i'r pwrpas
MPA2.3 asesu cryfderau a gwendidau'r gwaith terfynol
MPA2.4 disgrifio ffyrdd o wneud gwelliannau pellach i'r gwaith
MPA2.5 adolygu canlyniadau i wneud yn siŵr eu bod yn cyfateb i'r gofynion a'u bod yn addas i'r diben

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD3 datblygu a phrofi atebion i wella'r defnydd parhaus o offer a systemau technoleg ddigidol

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA3.1 adolygu manteision ac anfanteision offer technoleg ddigidol a systemau a ddefnyddiwyd, o ran cynhyrchedd ac effeithlonrwydd
MPA3.2 disgrifio ffyrdd o wella cynhyrchedd ac effeithlonrwydd
MPA3.3 datblygu atebion i wella eich cynhyrchedd eich hun wrth ddefnyddio technoleg ddigidol
MPA3.4 profi atebion i sicrhau bod y gwaith fel y bwriadwyd

# Uned 7574-200 Gwella cynhyrchedd gan ddefnyddio Technoleg Ddigidol

## Gwybodaeth ategol

### Gofynion tystiolaeth

**Cyfeiriwch at adran Asesu y Llawlyfr hwn am fanylion llawn.**

**Canlyniad Dysgu 1**

MPA1.1

Gall dibenion defnyddio technoleg ddigidol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Amser, hwylustod, cost; manteision
- Effeithiolrwydd, ansawdd, cywirdeb
- Symleiddio prosesau busnes
- Mwy o gynhyrchedd

MPA1.7

Gall canllawiau neu gyfyngiadau cyfreithiol neu leol gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Diogelu data, hawlfraint, trwyddedu meddalwedd
- Diogelwch
- Arddull tŷ sefydliadol neu ganllawiau brand
- Canllawiau lleol ar gyfer gweithio gyda TG a storio gwybodaeth

**Canlyniad Dysgu 2**

MPA 2.1

Adolygu defnyddio offer TG: gall gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Casglu gwybodaeth i helpu i wneud dyfarniadau
- Dadansoddi gwybodaeth ynghylch a yw'r offer a'r technegau TG yn briodol i'r dasg a'r canlyniad a fwriedir

MPA2.2

Detholiad o offer technoleg ddigidol: gall gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Yr amser a gymerir, cyfleustra, cost, ansawdd, cywirdeb, ystod o gyfleusterau, amlbwrpasedd

- Trosglwyddedd gwybodaeth i fformatau eraill
- Cyflymder cysylltiad rhyngrwyd, cyfyngiadau amser lawrlwytho ffeiliau mawr

MPA2.4

Gall gwelliannau i waith gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cywiro camgymeriadau
- Osgoi effeithio ar waith pobl eraill
- Ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o wneud pethau, gan ddysgu technegau newydd

MPA2.5

Gall canlyniadau adolygiad gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gwerthuso ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir
- Cynhyrchu drafftiau
- Adolygu yn erbyn cynlluniau cychwynnol
- Gwirio gyda'r gynulleidfa a fwriadwyd
- Effaith eu camgymeriadau eu hunain ar bobl eraill

**Canlyniad Dysgu 3**

MPA3.3

Gall gwell cynhyrchedd ac effeithiolrwydd gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Amser
- Arian
- Symleiddio prosesau gwaith
- Cynyddu allbwn
- Gwella ansawdd allbynnau
- Cost datrysiad
- Datblygu datrysiadau
- Gosod llwybrau byr
- Addasu rhyngwyneb

# Atodiad 1 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ar gyfer canolfannau sy'n darparu cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i ***Lyfrgell Dogfennau'r Ganolfan*** ar ***www.cityandguilds.com*** neu cliciwch ar y dolenni isod:

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Llawlyfr y Ganolfan***
Mae'r ddogfen hon ar gyfer pob canolfan gymeradwy ac mae'n rhoi arweiniad i'w helpu i gyflawni ein cymwysterau. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar

- Meini prawf sicrhau ansawdd y Ganolfan a gweithgareddau monitro
- Systemau gweinyddu ac asesu
- Timau cefnogi wynebu canolfannau yn City & Guilds / ILM
- Rolau a chyfrifoldebau sicrhau ansawdd y Ganolfan.

Dylid defnyddio Llawlyfr y Ganolfan i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau Contract y Ganolfan.

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Asesiad y Ganolfan***
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion sicrhau ansawdd cyffredin gofynnol ar gyfer ein cymwysterau a reoleiddir a'n cymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n cynnwys cydrannau a asesir gan y ganolfan. Bydd canllawiau penodol hefyd yn cael eu cynnwys mewn llawlyfrau cymwysterau perthnasol a/neu ddogfennau asesu.

Mae'n ymgorffori ein disgwyliadau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol canolfannau a'r dulliau sicrhau ansawdd allanol a ddefnyddiwn i sicrhau bod safonau asesu yn cael eu bodloni a'u cynnal. Mae hefyd yn manylu ar yr ystod o sancsiynau y gellir eu rhoi ar waith pan nad yw canolfannau'n cydymffurfio â'n gofynion, neu gamau a gymerir i gysoni marcio/asesu canolfannau â'r safonau gofynnol. Yn ychwanegol, mae'n rhoi arweiniad manwl ar weinyddiad diogel a dilys asesiadau canolfannau.

**Mae *Trefniadau mynediad - Pryd a sut y mae angen gwneud ceisiadau i City & Guilds*** yn rhoi manylion llawn am y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael addasiadau mewn asesiad.

Mae ***Llyfrgell Dogfennau'r Ganolfan*** hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel:

- Cynnal arholiadau
- Cofrestru dysgwyr
- Apeliadau a chamarfer

### Cysylltiadau defnyddiol

Ewch i adran Cysylltu â Ni ar wefan City & Guilds, ***Cysylltu â ni***

### City & Guilds

Am fwy na 140 o flynyddoedd rydyn ni wedi gweithio gyda phobl, sefydliadau ac economïau i'w helpu i adnabod a datblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ffynnu. Rydyn ni'n deall y cyswllt sy'n newid bywyd rhwng datblygu sgiliau, symudedd cymdeithasol, llewyrch a llwyddiant. Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant safon uchel, cymwysterau, asesiadau a nodweddion sy'n arwain at swyddi ac sy'n bodloni anghenion y diwydiant.

Rydyn ni'n partneru gyda'n cwsmeriaid i gyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith sy'n adeiladu hyfedredd i gefnogi gwell rhagolygon i bobl, sefydliadau a'r gymdeithas ehangach. Rydyn ni'n creu llwybrau dysgu hyblyg sy'n cefnogi cyflogadwyedd gydol oes, am ein bod yn credu bod pobl yn haeddu'r cyfle i (ail)hyfforddi ac (ail)ddysgu eto ac eto - gan ennill sgiliau newydd ar bob cam o fwyd, ym mhle bynnag maen nhw'n dechrau.

Mae cymuned brandiau City & Guilds yn cynnwys Gen2, ILM, Interrain, Kineo a The Oxford Group.

### Hawlfraint

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds a dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohono ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (gweler gwefan City & Guilds) hefyd mewn grym.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

City & Guilds of London Institute
Giltspur House
5-6 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DE

**cityandguildsgroup.com**